
S4C
Cyw
Comic Cyw
2


Mae'n wanwyn!
Rwy'n darllen

Y Sŵn yn yr Ardd

gan Anni Llŷn



Roedd hi'n ddiwrnod braf o wanwyn ym Myd Cyw. Roedd Cyw a'i ffrindiau yn yr ardd yn chwarae. Yn sydyn, clywon nhw sŵn rhyfedd.




Gwrandawodd pawb yn astud. Roedd yn swnio fel rhywbeth yn torri neu'n cracio. Dyna ryfedd, meddyliodd pawb.




Clywodd Jangl sŵn yn dod o'r can dŵr. Rhoddodd ei phen i mewn i weld beth oedd yno. Nid sŵn cracio oedd i'w glywed ond sŵn 'bzzzzz...'!




Roedd gwenynen fach yn y can dŵr. Dychrynodd y wenynen wrth weld pen Jangl a hedfanodd yn gyflym drwy big y can dŵr.




Aeth Triog i wrando wrth y potiau blodau gwag. Nid sŵn cracio oedd i'w glywed, ond sŵn adenydd bach. Pili-pala oedd yno, yn chwilio am flodau.



Clywodd Plwmp y sŵn cracio eto, ond cyn iddo fynd i chwilio, clywodd Jangl yn gweiddi, "Help!"



Roedd pen Jangl yn sownd yn y can dŵr! Rhedodd Plwmp a Triog ati.



Clymodd Plwmp ei drwnc am gynffon Jangl a thynnodd Triog ar y can dŵr.

"1, 2, 3... tynnu!" galwodd Triog.



Daeth pen Jangl yn rhydd a chwympodd pawb i'r llawr.

"Diolch yn fawr, ffrindiau!" meddai Jangl.



Wrth godi ar eu traed, clywodd y tri'r sŵn cracio eto.

"Mae'n dod o'r llwyn!" meddai Jangl.



Daeth Cyw, Llew, Bolgi a Deryn draw. Wrth edrych yn ofalus fe welson nhw wy!



Roedd yr wy yn cracio ac yn torri, a beth ddaeth i'r golwg ond cyw bach, melyn. Dyna'r sŵn! Sŵn plisgyn yr wy yn cracio ac yn torri. Gwenodd pawb wrth weld rhyfeddod bach y gwanwyn!

Cwis

Y Sŵn yn yr Ardd

I'r oedolion
Os ydy'ch plentyn yn ansicr, beth am ddarllen y stori gyda nhw eto?

Pwy oedd yn gwneud sŵn 'bzzzzz'?



gwenynen

neu



pili-pala

Rho gylch o gwmpas yr ateb cywir.

Pen pwy oedd yn sownd yn y can dŵr?



Triog

neu



Jangl

Beth ddaeth allan o'r wy?



cyw bach

neu



buwch goch gota

I wrando ar 'Straeon Comic Cyw' **clicia yma** neu sgania'r cod QR.

Gweld y Gwahaniaeth

Mae'n wanwyn ym Myd Cyw. Wyt ti'n gallu gweld 5 gwahaniaeth rhwng y ddau lun?






1 ✓ 2 ✓ 3 ✓


4 ✓ 5 ✓

Trychfilod Twt

Wyt ti'n gallu gorffen y lluniau yma o'r trychfilod sy'n byw yng ngardd Cyw?




gwenynen




chwilen

Wyt ti'n gwybod...?
Mae gan y pili-pala ddau enw arall – iâr fach yr haf a glöyn byw.



pili-pala



buwch goch gota

Amser Bwydo

O na! Mae'r ŵyn bach eisiau bwyd. Wyt ti'n gallu dilyn y trac gyda dy fys a helpu Bolgi i'w gyrraedd?




Wyt ti'n gwybod...?
Mae ŵyn bach yn adnabod llais eu mam o bell.

Pwy yw Pwy?


Defnyddia dy fys neu bensil i gysylltu'r anifail ifanc gyda'i fam.



oen



buwch




llo



ceffyl




cyw



dafad



ebol



iâr

Babis Bach y Fferm


Wyt ti'n gallu ysgrifennu enwau'r anifeiliaid bach yma?


Wyt ti'n gwybod...?
Mae ebol yn gallu sefyll a cherdded o fewn awr o gael ei eni.



ebol

oen





llo


cyw



Holi Hapus!

Mae'r Cywion Bach yn dysgu am Holi – gŵyl y lliwiau. Lliwia'r llun o Bîp-Bîp, Pi-Po, Bop a Bw yn dathlu.

I lawrlwytho 'Cerdyn Holi' **clicia yma** neu sgania'r cod QR.



Archarwyr Byd Cyw

Parti Pen-blwydd Plwmp

gan Sioned Wyn Roberts



Heddiw mae pen-blwydd Plwmp, ac mae'r te parti, y deisen a'r anrhegion i gyd yn barod.



Mae Plwmp yn gobeithio cael anrheg arbennig heddiw – siwpyr-bŵer. Mae gan Cyw, Triog, Llew a Jangl glogyn archarwr bob un, ac mae Plwmp eisiau un hefyd.



Dyma Plwmp yn dechrau agor y parseli. Am anrhegion! Pensiliau lliw gan Llew. Breichled gan Jangl. Coron gan Cyw. Sanau gan Deryn.

“Diolch yn fawr,” meddai Plwmp yn gwrtais.



Dim ond un anrheg sydd ar ôl ac mae Plwmp yn rhwygo’r parsel yn wyllt. Mae hwn yn edrych fel clogyn archarwr, meddyliodd Plwmp. Ond tywel lan y môr yw’r anrheg, nid clogyn archarwr.

“Diolch, Bolgi,” meddai Plwmp, ond roedd yn teimlo’n siomedig.



Erbyn hyn, mae’n amser goleuo’r canhwyllau ar y deisen pen-blwydd ac mae pawb yn morio canu “Pen-blwydd hapus i ti!”. Dyma Plwmp yn codi ei drwnc, anadlu i mewn a chwythu wwwwwwwwwsh...!



Mae'r canhwyllau i gyd yn chwythu i ffwrdd.

Mae'r hetiau parti yn chwythu i ffwrdd.

Wedyn mae'r anrhegion yn chwyrlïo i bob man.




Ac oni bai bod Triog yn dal cynffon Llew, sy'n dal cynffon Bolgi, sy'n dal cynffon Jangl, sy'n dal coes y bwrdd, bysen nhw wedi chwythu i ffwrdd hefyd!



"Wps, sori," meddai Plwmp mewn sioc. "Wn i ddim beth ddigwyddodd."



“Plwmp! Rwyt ti wedi cael siwpyr-bŵer ac wedi cael clogyn gwyrdd,” meddai Jangl.



“Rwy’n archarwr o’r diwedd!” meddai Plwmp yn hapus.



Ar unwaith, mae Plwmp yn defnyddio ei siwpyr-bŵer i helpu ei ffrindiau. Ond yna mae Plwmp yn chwythu’n galed...




... ac mae sŵn bach ffffffff yn dod allan o dan ei gynffon.

“Wps, sori,” meddai’n swil ac mae pawb yn rowlio chwerthin. Am siwpyr-bŵer doniol sydd gan Plwmp!


HER DDARLLEN GWOBRAU TIR NA N-OG AWARDS 2026

Alli di gwblhau her ddarllen Gwobrau Tir na n-Og?

Tyrd i gymryd rhan yn heriau darllen hwyliog Gwobrau Tir na n-Og! Ar ôl cwblhau pob her, lliwia'r sgwâr.



Darllen llyfr am ddathliad	Darllen mewn lle anarferol	Darllen yn yr awyr agored	Darllen llyfr am anifail	Darllen llyfr sydd ag odlau
Darllen llyfr am deimladau	Darllen llyfr am archarwr	Darllen llyfr am gymeriad o fyd teledu	Creu llyfrnod	Darllen dy hoff lyfr
Darllen llyfr sy'n gwneud i ti chwerthin	Darllen llyfr llawn ffeithiau	Darllen yn dy byjamas	Creu 'den' darllen	Darllen yng ngolau tortsh
Darllen llyfr sydd â chlawr coch	Darllen gyda ffrind neu aelod o'r teulu	Darllen llyfr sydd wedi ennill Gwobr Tir na n-Og	Creu llun o dy hoff gymeriad	Darllen wrth fynd ar daith
Gwrando ar lyfr llafar	Darllen gyda dy hoff degan neu anifail anwes	Her wag! Meddwl am dy her dy hun!	Tynnu llun ohonot yn darllen	Defnyddio Lego i adeiladu golygfa o lyfr



Beth yw Gwobrau Tir na n-Og?

Gwobrau blynyddol i'r llyfrau plant gorau o Gymru!




CYP25013

Pasg Hapus

Cysyllta'r dotiau i weld beth sy'n cuddio.

I lawrlwytho 'Cerdyn Pasg' **clicia yma** neu sgania'r cod QR.

Lliwia'r llun.



Wyt ti'n gwybod...?
Dydy siocled ddim yn dda i gŵn. Gall siocled eu gwneud nhw'n sâl.

Wy gan Bwy?

Mae'r ieir wedi dodwy wyau! Wyt ti'n gallu cysylltu'r wy gyda'r iâr gywir?




Wyt ti'n gwybod...?
Mae cyw bach yn cracio'r wy ar agor gyda'i big pan mae'n deor.

Sawl wy weli di?

Ble mae'r 'n' yn nythu?

Wyt ti'n gallu lliwio bob nyth sydd â 'n' arno?



I'r oedolion
Mae chwilio am y lythyren 'n' yn helpu eich plentyn i adnabod sŵn cychwynnol gair.

Wyt ti'n gallu ffurfio 'n'?

n n n n n

Garddio

gan Anni Llŷn

Edrycha ar y lluniau a'r geiriau, ac yna darllena'r stori.
Bob tro weli di un o'r lluniau yn y stori, dwed y gair yn uchel.


Cyw


blodau


letys


Bolgi


Llew


tortsh


Gwen y Gwdihŵ

Roedd anifeiliaid Byd  wedi bod yn garddio. Roedden nhw wedi plannu hadau fisoedd yn ôl a nawr roedd pob math o  wedi tyfu yn yr ardd. Roedd  wedi penderfynu plannu rhywbeth arall hefyd. Roedd hi wedi plannu .

Un bore, wrth i bawb ganmol y  prydferth, sylwodd  fod y  yn rhacs! Roedd y  yn llawn tyllau bach, a'r dail wedi cael eu bwyta.

"Mae rhywun wedi bod yn bwyta fy  yn y nos!" meddai .

Penderfynodd pawb gymryd tro i aros allan yn yr ardd drwy'r nos er mwyn dal pwy bynnag oedd yn bwyta  .

Y noson gyntaf, roedd  a  yn yr ardd. Roedd ganddyn nhw  ond roedden nhw dal ychydig yn ofnus. Cawson nhw fraw wrth glywed  yn tw-hwtian.



Plwmp



Deryn



sêr



letys



Jangl



Triog



Cyw



lindys



blodau




pili-pala

Ar yr ail noson, arhosodd  a  allan yn yr ardd. Ond roedden nhw mor brysur yn syllu ar y  disglair, anghofion nhw am y .

Ar y drydedd noson arhosodd ,  a  gyda'i gilydd. Ond roedden nhw wedi blino'n lân, ac aeth y tri i gysgu. Pan ddeffrodd  yn y bore gwelodd  bach yn cropian ar hyd y  ac yn bwyta llond ei bol!

"O,  bach!" meddai  gan ei godi, cyn iddo fwyta'r  i gyd. Penderfynodd y criw greu patsyn arbennig o ddail a  yn yr ardd, ac ychydig o  i'r , ond mewn rhai wythnosau doedd dim sôn am y  bach. Ond gwelodd   hardd yn hedfan yn hapus o gwmpas y lle! Dyna amser arbennig yw'r gwanwyn, meddyliodd.







Eisiau dathlu Diwrnod y Llyfr gyda'ch plentyn? Beth am ddarllen llyfr Cyw gyda nhw?

Amser Plannu

Torra'r blodau a'u gosod yn y ferfa mewn trefn, o'r byrraf i'r talaf.


I wrando ar y gân 'Garddio' **clicia yma** neu sgania'r cod QR.



Angen help? Gofyn i oedolyn dorri'r lluniau allan yn ofalus i ti.

Sleim a Sbri


Wyt ti'n gallu helpu'r falwoden i gyrraedd ei ffrindiau yn yr ardd? Defnyddia dy fys neu bensil i ddilyn patrwm ei llwybr sleimllyd!




Wyt ti'n gwybod...?
Mae malwod yn caru'r glaw. Maen nhw'n dod allan yn fwy aml pan mae'n wlyb!

Teimladau

Mae Bolgi a'i ffrind Owi'r Oen yn teimlo'n hapus. Tynna lun i ddangos sut wyt ti'n teimlo?





Pam wyt ti'n teimlo fel hyn?

I wrando ar y gân 'Teimladau' **clicia yma** neu sgania'r cod QR.

Defnyddia'r lluniau yma i dy helpu.



hapus



trist



blin



ofnus



blinedig




sâl



cynhyrfus

Tynna lun ohonot ti a dy ffrind




Wyt ti'n gallu ysgrifennu enw dy ffrind?


Amser am Antur!

Mae Plwmp a Deryn wrth eu bodd yn mynd am dro yn yr awyr agored. Beth am i ti fynd am dro gydag oedolyn i chwilio am y pethau yma?


Cyfra sawl un o'r rhain weli di – a'u lliwio nhw!




blodyn




pili-pala




cwmwl




malwoden




enfys




mwydyn



buwch goch gota



nyth



gwenynen

Ble mae Cyw?

Mae Cyw wedi mynd i barti Dydd Gŵyl Dewi. Wyt ti'n gallu gweld ble mae hi'n cuddio?

I'r oedolion
Mae gweithgaredd fel hyn yn datblygu sgiliau arsylwi eich plentyn.



Sawl berfa weli di yn y llun?









Parc Glan Gwil

BLŴI







S4C Cyw
6:00
Bob dydd Every day
s4c.cymru/cyw

Cofiwch ailgylchu Comic Cyw ar ôl ei ddarllen - diolch am helpu'r blaned!

I'r oedolion
I danysgrifio i e-bost misol Cyw
clicia yma
neu sgania'r cod QR.

I wrando ar 'Straeon Comic Cyw'
clicia yma
neu sgania'r cod QR.

Diolch am ddarllen! Rhifyn 3 yn dod yn fuan!

Cynnwys: Helen Davies, Anni Llŷn, Sioned Wyn Roberts, Sioned Mills
Dylunwyd gan: Bait Studio
Golygydd: Meinir Wyn Edwards
Ymgynghorydd Addysg: Gwenith Blair

CYNGOR LLYFRAU CYMRU
BOOKS COUNCIL of WALES

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

S4C boomcymru